


Nodiadau ymgeisio



Am y nodiadau hyn

Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi'ch 'Ffurflen Cais am Fenthyciad Ôl-raddedig'.

Gallwch wneud cais ar-lein hefyd trwy droi at www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Sut i ddefnyddio'r nodiadau hyn



Pan welwch hyn yn eich ffurflen Cais am Fenthyciad Ôl-raddedig, mae'n golygu bod gwybodaeth ychwanegol yn y nodiadau hyn i'ch helpu neu'ch cynghori.

Gallai hyn fod yn wybodaeth am sut i ateb cwestiwn neu adran, neu'n gyfarwyddyd i anfon dogfennau ategol penodol.

Mae'r nodiadau hyn wedi'u rhannu'n adrannau ac wedi'u rhifo yn yr un ffordd â'r cwestiynau yn y ffurflen gais.

Darllenwch y nodiadau hyn – os na fyddwch yn ateb cwestiwn neu adran yn gywir neu os na fyddwch yn cynnwys y dogfennau y bydd angen i ni eu cael, bydd hyn yn oedi unrhyw daliadau.

Ffurfiâu amgen

Mae'n holl ffurflenni a'n canllawiau ar gael mewn Braille, print mawr neu fel fersiynau sain. Os bydd angen i chi gael y rhain, gallwch ofyn amdanynt trwy anfon neges e-bost gyda'ch enw, cyfeiriad a manylion y ffurf y mae gofyn i chi ei chael, at: brailleandlargefont@slc.co.uk neu ffonio **0141 243 3686** (dim ond delio â cheisiadau am ffurfiâu amgen y mae'r rhif hwn yn ei wneud).

Adran 1 Eich manylion

1.1 Newid enw

Os yw'ch enw wedi newid ers y cyhoeddwyd eich pasbort neu'ch tystysgrif geni, bydd angen i chi brofi bod eich enw wedi newid mewn ffordd gyfreithlon.

Bydd angen i chi anfon un o'r canlynol atom:

- eich gweithred newid enw; neu'ch
- tystysgrif briodas neu'ch dogfennaeth partneriaeth sifil; neu'ch
- tystysgrif ysgaru neu'ch gorchymyn diddymu.

1.5 Rhif Yswiriant Gwladol

Cedwir unrhyw daliad o'ch benthyciad yn ôl nes byddwch yn darparu'ch rhif Yswiriant Gwladol y DU, oni bai eich bod yn fyfyrwr o'r Undeb Ewropeaidd.

Os nad ydych chi fyth wedi cael rhif Yswiriant Gwladol, gadewch flwch y rhif Yswiriant Gwladol yn wag. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen i chi gymryd unrhyw gamau er mwyn sicrhau rhif Yswiriant Gwladol. Yn y cyfamser, os byddwch yn cael rhif Yswiriant Gwladol, dylech roi gwybod i ni cyn gynted ag y bo modd.

Adran 2 Eich gweithgarwch astudio blaenorol

2.2 Cymwysterau ôl-raddedig blaenorol

Os oes gennych chi:

- Radd doethur; neu
- Radd Meistr; neu
- Radd Meistr Integredig; neu
- gymhwyster tramor sy'n cyfateb ag unrhyw rai o'r uchod **nid ydych yn gymwys i gael Benthyciad Ôl-raddedig.**

Os oes gennych chi:

- Ddiploma Ôl-raddedig; neu
- Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR); neu
- Dystysgrif Ôl-raddedig; neu
- Radd Meistr Anrhydeddus; neu
- gymhwyster tramor sy'n cyfateb ag unrhyw rai o'r uchod **efallai eich bod yn gymwys i gael Benthyciad Ôl-raddedig.**

Ni fydd angen i ni gael unrhyw brawf o'ch cymwysterau nawr, ond efallai y byddwn yn gofyn i chi am y rhain yn y dyfodol.

Adran 3 Eich cwrs ôl-raddedig

3.1 Math o astudio a hyd y cyfnod astudio.

Gall myfyrwyr ôl-raddedig astudio eu cwrs dros nifer amrywiol o flynyddoedd. Rhennir pob cwrs amser llawn dros 1 – 2 flynedd, fodd bynnag, gall cwrs rhan-amser bara hyd at 4 blynedd.

Bydd hyn yn effeithio'n bennaf ar swm y cyllid y byddwch yn ei gael bob blwyddyn, oherwydd bydd y cyfanswm y byddwch yn dewis ei fenthycu yn cael ei rannu dros hyd eich cwrs.

Mae'r cyrsiau canlynol yn gymwys er mwyn cael cyllid gennym:

- cwrs amser llawn sy'n para un neu ddwy flwyddyn academaidd;
- cwrs rhan-amser sy'n para dwy flwyddyn academaidd, ac sydd â chwrs amser llawn cyfatebol sy'n para blwyddyn;
- cwrs rhan-amser sy'n para tair neu bedair blwyddyn academaidd, ac sydd â chwrs amser llawn cyfatebol sy'n para dwy flynedd; neu
- gwrs rhan-amser sy'n para dwy neu dair blwyddyn academaidd, nad oes ganddo unrhyw gwrs amser llawn cyfatebol.

Os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser sy'n gwrs amser llawn dwy flynedd cyfatebol ac os nad ydych chi wedi penderfynu sawl blwyddyn yr ydych yn dymuno eu treulio'n astudio, gallwch ddewis 'heb benderfynu'. Mae hyn yn golygu y byddwn yn pennu'ch taliadau yn yr un modd ag y byddem yn ei wneud ar gyfer cwrs 3 blynedd. Bydd angen i chi roi gwybod i ni os bydd manylion eich cwrs yn newid.

3.2 Bwrsariaeth GIG

Ni fydd myfyrwyr yn gymwys i gael Benthyciad Ôl-raddedig os gallant wneud cais am bwrsariaeth GIG neu os ydynt yn cael bwrsariaeth GIG. Os nad ydych yn siŵr a allwch wneud cais am hwn, bydd angen i chi siarad â'ch prifysgol.

3.3 Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol

Ni fydd myfyrwyr yn gymwys i gael Benthyciad Ôl-raddedig os gallant gael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol. Os nad ydych yn siŵr a allwch wneud cais am hwn, bydd angen i chi siarad â'ch prifysgol.

Os ydych wedi gwneud cais am hwn ac os gwrthodwyd eich cais, bydd angen i chi anfon eich llythyr gwrthod gyda'ch cais. Ni allwn dderbyn eich cais hebdo.

Adran 3 Eich cwrs ôl-raddedig – parhad

3.4 Astudio cwrs dysgu o bell.

Er mwyn bod yn gymwys i gael Benthyciad Ôl-raddedig wrth astudio cwrs dysgu o bell, rhaid eich bod yn byw yng Nghymru ar ddiwrnod 1af blwyddyn academaidd 1af eich cwrs.

Os nad ydych, ni fyddwch yn gymwys i gael Benthyciad Ôl-raddedig.

Diwrnod cyntaf eich blwyddyn academaidd yw:

- 1 Medi, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Awst a chyn 1 Ionawr;
- 1 Ionawr, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ionawr a chyn 1 Ebrill;
- 1 Ebrill, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill a chyn 1 Gorffennaf;
- 1 Gorffennaf, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Gorffennaf a chyn 1 Awst.

Rhaid i chi roi gwybod i ni pan fydd eich cyfeiriad yn newid oherwydd y gallai hyn effeithio ar eich cymhwysra i gael y benthyciad hwn.

Lluoedd Arfog

Efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth i astudio cwrs dysgu o bell mewn gwlad dramor os ydych chi neu aelod o'ch teulu yn gwasanaethu y tu allan i'r DU yn un o'r canlynol:

- Y Gwasanaeth Llyngesol (Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol)
- Y Fyddin
- Yr Awyrlu Brenhinol
- Yr Heddlu Milwrol Brenhinol
- Y Ghurkas

Bydd yr aelodau teuluol canlynol yn fyfyrwyr cymwys:

- Priod neu bartner sifil sy'n byw gydag aelod o Lluoedd Arfog y DU ac sy'n gwasanaethu mewn gwlad dramor
- Rhiant dibynnol sy'n byw gyda;
 - Phlentyn sy'n aelod o Lluoedd Arfog y DU sy'n gwasanaethu mewn gwlad dramor
 - Priod neu bartner sifil y plentyn sy'n aelod o Lluoedd Arfog y DU sy'n gwasanaethu mewn gwlad dramor

Beth fydd angen i chi ei anfon

Bydd angen i chi anfon llythyr sy'n cadarnhau'ch enw a'ch cyfeiriad, neu gyfeiriad Swyddfa Bost y Lluoedd Prydeinig.

Os yw'r aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog, bydd angen i chi anfon llythyr sy'n cadarnhau'r canlynol:

- ei enw
- ei gyfeiriad neu ei gyfeiriad Swyddfa Bost y Lluoedd Prydeinig (BFPO)
- eich enw chi
- ei berthynas â chi

Rhaid i Swyddog Cofnodion Uned y Lluoedd Arfog stampio'r llythyr y byddwch yn ei anfon, ei lofnodi a nodi'r dyddiad arno. Ni allwn dderbyn llungopi.

Argymhellwn eich bod yn defnyddio'ch cyfeiriad BFPO ar gyfer yr holl ohebiaeth.

Adran 4 Eich gwybodaeth breswyllo

4.2 Os nad oes gennych chi basbort y DU neu os yw'ch pasbort y DU wedi dod i ben.

Os yw wedi dod i ben, neu os yw ar fin dod i ben, bydd angen i chi anfon:

- 'Ffurflen Tystysgrif Geni/Mabwysiadu Benthyciad Ôl-raddedig' wedi'i llenwi **a'ch**
- tystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol

Mae'r 'Ffurflen Tystysgrif Geni/Mabwysiadu Benthyciad Ôl-raddedig' ar gael i'w lawrlwytho ar **www.cyllidmyfyrwycymru.com/ffurflenni**

Dylech lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd gydag unrhyw ddogfennau ategol, ynghyd â'ch prif ffurflen gais, er mwyn sicrhau bod eich cyllid yn ei le cyn gynted ag y bo modd.

Os na allwch ddychwelyd eich ffurflen ychwanegol gyda'ch prif ffurflen gais, dylech ei hanfon atom cyn gynted ag y bo modd. Ni allwn gadarnhau a allwch gael Benthyciad Ôl-raddedig heb y ffurflen ychwanegol hon

4.3 Dinasyddion UE

Bydd angen i chi brofi'ch cenedligrwydd UE, a dylech anfon un o'r canlynol atom:

- eich pasbort
- eich cerdyn adnabod cenedlaethol.

4.4 Aelodau teuluol dinasyddion UE

Bydd angen i chi brofi cenedligrwydd UE yr aelod o'ch teulu, a bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- pasbort yr aelod o'ch teulu sy'n dod o UE
- ei gerdyn adnabod cenedlaethol

Yn ogystal, mae angen i chi brofi'r berthynas rhyngoch chi a'r aelod o'ch teulu sy'n ddinesydd UE, a bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- tystysgrif geni neu briodas

Adran 4 Eich gwybodaeth breswyllo – parhad

4.5 Plentyn dinesydd Swistiroi

Er mwyn cael Benthyciad Ôl-raddedig fel plentyn dinesydd Swistiroi, rhaid bod eich rhiant sy'n ddinesydd Swistiroi yn byw/wedi bod yn byw yn y DU ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd.

Diwrnod cyntaf eich blwyddyn academaidd yw:

- 1 Medi, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Awst a chyn 1 Ionawr;
- 1 Ionawr, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ionawr a chyn 1 Ebrill;
- 1 Ebrill, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill a chyn 1 Gorffennaf;
- 1 Gorffennaf, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Gorffennaf a chyn 1 Awst.

4.6 Dinesydd o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu ddinesydd Swistiroi

Bydd angen i chi brofi pwy ydych chi, a bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- eich pasbort dilys; neu'ch
- Cerdyn Adnabod Cenedlaethol; neu'ch
- tystysgrif geni

Yn ogystal, bydd angen i chi brofi cenedligrwydd Swistiroi eich rhiant, a bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- pasbort dilys eich rhiant sy'n ddinesydd Swistiroi; neu
- Gerdyn Adnabod Cenedlaethol

A thystiolaeth o'i fanylion preswyllo yn y DU, a bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- llythyr wedi'i lofnodi sy'n cadarnhau bod eich rhiant sy'n ddinesydd Swistiroi yn byw/wedi bod yn byw yn y DU ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd, ac un o'r canlynol sy'n dangos ei enw a'i gyfeiriad yn y DU:
 - cyfriflen banc ddiweddaraf (copïau papur yn unig); neu
 - slip cyflog diweddaraf (sy'n dangos cyfeiriad y cartref); neu
 - gytundeb tenantiaeth/datganiad morgais; neu
 - fil cyfleustodau (dyddiedig yn ystod y 3 mis diwethaf); neu
 - ohebiaeth gan Awdurdod Lleol (ar bapur pennawd); neu
 - ohebiaeth gan Adran o'r Llywodraeth.

Bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- ffurflen Statws Cyflogaeth yn y DU Benthyciad Ôl-raddedig wedi'i llenwi.

Gellir lawrlwytho ffurflen Statws Cyflogaeth yn y DU Benthyciad Ôl-raddedig o

www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Dylech llenwi'r ffurflen ychwanegol hon a'i dychwelyd gydag unrhyw ddogfennau ategol, ynghyd â'ch prif ffurflen gais, er mwyn sicrhau y bydd eich cyllid fod yn ei le cyn gynted ag y bo modd.

Os na allwch dychwelyd eich ffurflen ychwanegol gyda'ch prif ffurflen gais, dylech ei hanfon atom cyn gynted ag y bo modd. Ni allwn gadarnhau a allwch gael Benthyciad Ôl-raddedig heb y ffurflen ychwanegol hon wedi'i llenwi.

Adran 4 Eich gwybodaeth breswyllo – parhad

4.7 Aelod o deulu dinesydd o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu ddinesydd Swistir

Bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- ffurflen Statws Cyflogaeth yn y DU Benthyciad Ôl-raddedig wedi'i llenwi.

Gellir lawrlwytho ffurflen Statws Cyflogaeth yn y DU Benthyciad Ôl-raddedig o

www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/ffurflenni

Dylech llenwi'r ffurflen ychwanegol hon a'i dychwelyd gydag unrhyw ddogfennau ategol, ynghyd â'ch prif ffurflen gais, er mwyn sicrhau y bydd cyllid fod yn ei le cyn gynted ag y bo modd.

Os na allwch ddychwelyd eich ffurflen ychwanegol gyda'ch prif ffurflen gais, dylech ei hanfon atom cyn gynted ag y bo modd. Ni allwn gadarnhau a allwch gael Benthyciad Ôl-raddedig heb y ffurflen ychwanegol hon wedi'i llenwi.

4.8 Plentyn gweithiwr o Dwrci sy'n gweithio yn y DU

I wneud cais am fenthyciad fel plentyn gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich rhiant o Dwrci yn gweithio yn y DU ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs.

Yn ogystal, rhaid eich bod chi'n byw yn y DU ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs ac wedi bod yn byw yn y DU, AEE, Twrci neu'r Swistir am 3 blynedd cyn i'ch cwrs gychwyn.

Bydd angen i chi brofi pwy ydych chi, a bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- eich pasbort dilys gwreiddiol

Yn ogystal, bydd angen i chi anfon prawf o genedligrwydd eich rhiant o Dwrci, a bydd angen i chi anfon un o'r canlynol atom:

- ei basbort dilys gwreiddiol; neu
- ei gerdyn adnabod cenedlaethol dilys

A phrawf o'ch perthynas, a bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- tystysgrif geni neu briodas

Bydd angen i chi anfon prawf o gyflogaeth eich rhiant o Dwrci yn y DU hefyd, er enghraifft, anfonwch y canlynol atom:

- contract Cyflogaeth

4.9 Statws preswlydd sefydlog

Mae 'statws preswlydd sefydlog' yn golygu y gallwch fyw yn y DU yn barhaol, heb i'r Swyddfa Gartref roi unrhyw gyfyngiadau ar hyd y cyfnod y gallwch aros yma.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os bydd unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol:

- Rydych yn ddinesydd Prydeinig
- Mae gennych chi hawl 'preswyllo parhaol' yn y DU
- Rhoddwyd 'caniatâd amhenodol i aros' i chi
- Mae gennych chi hawl preswyllo yn y DU.

Gellir gweld gwybodaeth bellach am yr hawl preswyllo parhaol a materion mewnfudo eraill ar

www.homeoffice.gov.uk

Mae angen i chi brofi'ch statws presennol, a bydd angen i chi anfon un o'r canlynol atom:

- eich Hawlen Breswyllo Fiometrig; neu'ch
- pasbort y DU neu lythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau'ch statws mewnfudo.

Adran 4 Eich gwybodaeth breswyllo – parhad

4.10 Statws ffoadur

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu'ch
- rhiant(rhieni), llys-riant

wedi gwneud cais llwyddiannus am statws ffoadur yn y DU dan amodau Confensiwn Ffoaduriaid 1951 y Cenhedloedd Unedig, ac rydych chi neu nhw wedi sicrhau statws ffoadur, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw yn cadarnhau hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn ffoadur, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhiant gais i'r Swyddfa Gartref y byddwch chi'n cael eich ystyried fel 'plentyn'.

Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, rhaid eich bod wedi bod yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil iddo/iddi ar yr adeg pan wnaeth gais am loches.

4.11 Caniatâd Mynediad neu Aros

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws 'Caniatâd mynediad neu aros' bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws 'Caniatâd mynediad neu aros', dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn statws 'Caniatâd mynediad neu aros', rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais am loches.

Os rhoddwyd statws ffoadur i chi, bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau'ch statws a dogfen statws mewnfudo, er enghraifft:
- eich Hawlen Breswyllo Fiometrig; neu'ch
- pasbort gwreiddiol.

Os rhoddwyd statws ffoadur i'r aelod o'ch teulu, bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau ei statws a dogfen statws mewnfudo sy'n dangos ei statws fel ffoadur, er enghraifft:
- ei Hawlen Breswyllo Fiometrig; neu
- ei basbort gwreiddiol.

Bydd angen i chi anfon prawf o'ch perthynas atom hefyd, a bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- tystysgrif geni neu briodas.

Os ydych wedi cael statws 'Caniatâd Mynediad neu Aros', anfonwch:

- llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau eich statws a dogfen statws mewnfudo, er enghraifft:
- eich pasbort gwreiddiol; neu
- eich Caniatâd Preswyllo Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth fyddwn ni'n defnyddio eich hawlen fiometrig preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os oes aelod o'ch teulu wedi derbyn statws 'Caniatâd mynediad neu Aros', anfonwch:

- llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau ei statws a dogfen statws mewnfudo yn dangos ei statws ffoadur, er enghraifft:
- ei basbort gwreiddiol; neu
- eu Caniatâd Preswyllo Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth fyddwn ni'n defnyddio eich hawlen fiometrig preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Bydd hefyd angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas, anfonwch:

- dystysgrif geni neu briodi.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau gwreiddiol.

Adran 4 Eich gwybodaeth breswyllo – parhad

4.12 Person heb Ddinasyddiaeth

Os ydych chi wedi cael Person hebddo Anfon statws dinasyddiaeth:

- llythyr gan y Swyddfa Gartref
- eich Caniatâd Preswyl Biometrig dilys

Dim ond i ddilysu eich hunaniaeth fyddwn ni defnyddiwch eich trwydded biometrig preswyl, ni fyddwn ni defnyddio neu storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os oes gan aelod o'ch teulu statws heb statws Dinasyddiaeth, anfonwch:

- Tystiolaeth i gadarnhau eich perthynas â'r person sydd wedi cael heb statws Dinasyddiaeth

Adran 8 Datganiad Benthyciad

Atwrneiaeth

Os na allwch lofnodi'r ffurflen, rhaid iddi gael ei lofnodi ar eich rhan gan eich Atwrneiaeth. Rhaid anfon y llythyr Atwrneiaeth gyda'r cais cyn y derbynnir llofnod gan yr Atwrneiaeth honno.